

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

# Dogfen Ymgynghori Ffurfiol cynnig i wella darpariaeth a meithrin gallu ar gyfer Disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar draws y Fwrdeistref Sirol

## Fersiwn Plant a Phobl Ifanc

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau:
Ddydd Llun 24 Ebrill 2023 a daw i ben
Ddydd Mawrth 6 Mehefin 2023

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Cyflwyniad:**

Fel cyngor hoffem weld pob plentyn a pherson ifanc yn cael mynediad i addysg ansawdd uchel a hyfforddiant wedi ei deilwra i'w hanghenion er mwyn iddynt gyflawni eu potensial llawn, ymestyn uchelgais a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.

**Pam ein bod eisiau gwneud hyn:**

Mae gan y cyngor saith uned sy'n cefnogi Canolfannau Adnoddau Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig (ASD) ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r cymorth hwn ar gael mewn ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n llawn ar hyn o bryd. Yr hyn yr hoffem ei wneud yw darparu mwy o leoedd ar gyfer disgyblion yn cael y gefnogaeth gywir i gyflawni eu potensial

**Y ddarpariaeth ar hyn o bryd:** Ar hyn o bryd mae gan y Fwrdeistref Sirol 2 ysgol arbennig sef:

- Ysgol Arbennig Pen y Cwm sy'n darparu ar gyfer anghenion cymhleth; a
- Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon ar gyfer Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol ar dri safle:
  - Cyfnod cynradd (Canolfan Thomas Richard)
  - Cyfnod uwchradd (safle Pontygof Glynebwy)
  - Tŷ Stiwardiaid (Glynebwy)

Mae hefyd saith Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer ASD ac ADY mewn ysgolion prif ffrwd ar draws y Fwrdeistref Sirol:

- **Sector cynradd:**
  - Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri – Campws Six Bells
  - Ysgol Gynradd Coed y Garn
  - Ysgol Gynradd Glanhywi
  - Ysgol Gynradd Trehelyg
  - Ysgol Gynradd Ystruth

- **Sector uwchradd:**
  - Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri ADY – Campws Uwchradd
  - Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr ASD – Campws Uwchradd**

** Mae gan Gampws Uwchradd Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr hefyd ddosbarth pontio ysgol a gaiff ei gydnabod yn ffurfiol y Cyngor dan y cynnig hwn.

**Gyda pwy ydyn ni'n ymgynghori:** Fel Cyngor pan fydd newidiadau i ysgolion mae'n rhaid i ni ymgynghori arnyn nhw. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid i ni hefyd ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc. Gwnawn hyn drwy gysylltu gyda'r

- Fforwm Ieuenctid
- Disgyblion
- Cynghorau ysgol
- Uwch Gyngor Plant
- Yn ogystal â gwasanaethau eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Bydd 4 sesiwn galw heibio ar draws Blaenau Gwent os hoffech siarad gyda ni wyneb yn wyneb i rannu eich sylwadau neu bryderon. Mae'r wybodaeth ar gael ar ein **tudalen gwefan drwy'r ddolen** https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/council/consultations/proposal-to-improve-provision-and-build-capacity-for-additional-learning-needs/. Mae'r hyn a ddywedwch yn bwysig i ni a byddwn yn sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ei chasglu a'i defnyddio tuag at y cyfnod nesaf. Fel rhan o hyn byddwn hefyd yn gadael i chi wybod os cafodd y cynnig ei gymeradwyo.

**Trosolwg: Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig cynyddu'r capasiti ar gyfer Canolfannau Adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig (ASD) mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws y Fwrdeistref Sirol.** Daw hyn i rym o fis Medi 2023 mewn camau dros y 5 blynedd nesaf.

Mewn ysgolion cynradd, bydd nifer y lleoedd yn cynyddu o **61 i 86** ac mewn ysgolion uwchradd bydd nifer y lleoedd yn cynyddu o **62 i 80.**

Bydd y cyfnod cyntaf hefyd yn cynnwys 15 lle ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Felly sut bydd hyn yn edrych?

- cydnabod y grŵp pontio a sefydlwyd yng Nghymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr – Cyfnod uwchradd fel Canolfan Adnoddau Dysgu 6 lle o fis Medi 2023
- creu 6-8 lle ar gyfer disgyblion gydag ASD yn Ysgol Gyfun Tredegar o fis Medi 2023
- creu 10 lle ar gyfer disgyblion gyda ASD ac ADY yn Ysgol Gynradd Sofrydd o fis Medi 2024/25
- creu 15 lle ar gyfer ddisgyblion gyda ASD ac ADY yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg o fis Medi 2024

Rydym hefyd yn anelu i gynyddu lleoedd gan 40 yn ail gyfnod y cynnig fydd yn cynnwys Ysgolion Ffydd.

**Felly beth yw Cyfnod 2**

- creu Canolfan Adnoddau ASD ac ADY yn Ysgol Sefydliadol Brynmawr ar gyfer 10 disgybl
- creu Canolfan Adnoddau ASD ac ADY yn Ysgol Gynradd Cwm ar gyfer 10 disgybl,
- os oes angen, creu Canolfan Adnoddau ASD ac ADY mewn ysgol gynradd ffydd ym Mlaenau Gwent (heb ei benderfynu eto) ar gyfer 10 disgybl
- creu Canolfan Adnoddau ASD ac ADY yng Nghymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri – Campws Cynradd Heol Roseheyworth ar gyfer 10 disgybl.

**Sut olwg sydd arno ar hyn o bryd?** Mae 7 canolfan adnoddau ar hyn o bryd ac mae'r lleoedd yn y canolfannau hynny yn llawn ac mae'r galw yn cynyddu.

Drwy roi Canolfannau Adnoddau ADY mewn ysgolion prif ffrwd, teimlwn na fydd unrhyw effaith uniongyrchol ar y disgyblion sydd mewn ysgolion prif ffrwd ar hyn o bryd a'i fod yn helpu i integreiddio'r disgyblion hynny.

Bydd goblygiadau cost i'r Cyngor gan y gallai fod angen ailwampio ystafelloedd ar gyfer Canolfannau ADY a phan fyddant ar agor byddant angen athrawon a chynorthwywyr addysgu. Caiff y costau eu lledaenu dros nifer o flynyddoedd o safbwynt cyfalaf a refeniw. Mae dadansoddiad llawn o'r costau ar gael ar ein **tudalen gwefan drwy'r ddolen** https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/council/consultations/proposal-to-improve-provision-and-build-capacity-for-additional-learning-needs/

Mae gan y Cyngor tua 24 o ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion arbennig/canolfannau adnoddau tu fas i'r Fwrdeistref Sirol, ac mae gan hynny gost ariannol i'r Cyngor. Pe na byddem yn darparu'r lleoedd ychwanegol yma ar gyfer ein disgyblion yn y Fwrdeistref Sirol, yna gallem weld cynnydd sylweddol yn y costau hyn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

**Pam ein bod eisiau gwneud hyn:** Yn gyntaf rydym eisiau gwella darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial. Daeth deddf newydd i rym yn 2018 a dilynwyd hynny gan God Ymarfer newydd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a ddaeth yn 2021, sy'n golygu fod mwy o berchnogaeth ar gyfer ysgolion i ddiwallu anghenion eu disgyblion.

**Ar bwy y bydd hyn yn effeithio?** Bydd y cynnig hwn yn effeithio ar ddisgyblion yn yr ysgolion yn y rhestr uchod, gan y byddai angen iddynt greu gofod yn yr adeilad ar gyfer y ddarpariaeth.

Cafodd nifer o opsiynau eu hystyried a'r opsiwn hwn oedd yr un a ffafriwyd. I gynyddu capasiti (yn cynnwys lleoedd cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ffydd) dros y 5 mlynedd nesaf a chynyddu darpariaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, bydd hyn yn trin yr angen ar unwaith mewn darpariaeth uwchradd ac yn adeiladu ar y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg a seiliedig ar ffydd.

**Manteision y Cynnig:** Byddai'r cynnig hwn yn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl – yn arbennig y rhai gyda'r lefel uchaf o angen, i gael eu haddysgu yn lleol. Mae'r cynnig yn hyrwyddo dull gweithredu cynhwysol o fewn Addysg, gan sicrhau mynediad i gyfleusterau addysg arbenigol ansawdd uchel a chefnogaeth ar gyfer disgyblion gyda ADY o fewn y Fwrdeistref Sirol. Pe na byddai dim yn newid, byddai'r Cyngor yn methu ateb anghenion pob dysgwr yn arbennig rai gyda ASD ac ADY ym Mlaenau Gwent.

**Y buddion a'r manteision a ddisgwylir (o gymharu gyda'r sefyllfa fel y mae):**

- Disgyblion yn cael mynediad i ddarpariaeth addas a phriodol yn eu bro.
- Disgyblion yn cael darpariaeth addas a phriodol yn nhermau nodweddion gwarchodedig e.e. ffydd neu iaith;
- Creu datrysiad lleol fydd yn trin y galw cynyddol am ddarpariaeth ADY;
- Parhad a chynaliadwyedd yn nhermau addysg leol ar gyfer disgyblion gyda ADY;
- Bydd y strwythur yn meithrin hyder a hunan-dyb mewn disgyblion, rhieni a staff;
- Opsiwn lleol ar gyfer disgyblion yn symud o ysgol brif ffrwd i ganolfannau adnoddau;
- Gostwng costau lleoliadau tu fâs i'r sir ar gyfer disgyblion, tra'n sicrhau buddsoddiad lleol o fewn stad ysgolion Blaenau Gwent;
- Gwella mynediad i a chyfleusterau ar gyfer disgyblion sy'n ateb y meini prawf ar gyfer darpariaeth ADY ar draws y fwrdeistref sirol;
- Cynyddu capasiti a chynaliadwyedd; a Gostwng amser teithio ac ôl-troed carbon ar gyfer disgyblion

**Anfanteisiol:**

- Pryderon posibl gan rieni yng nghyswllt lleoli disgyblion mewn Canolfannau Adnoddau; a
- Gall nifer disgyblion mewn ysgolion a gafodd eu dynodi fel canolfannau posibl gynyddu os oes pobl yn symud i fyw i'r ardal.

**<u>Holiadur Ymgynghori – Sut y gallwch ddweud eich barn</u>**

Rhowch eich sylwadau ar y cynnig i ymestyn y capasiti ar gyfer disgyblion mewn Canolfannau Adnoddau ar draws y Fwrdeistref Sirol. Gallech hefyd hoffi dangos pa un o'r dilynol sy'n cynrychioli eich barn:

Gellir gwneud hyn mewn 2 ffordd:
**1. Drwy'r ddolen a roddwyd:** https://online1.snapsurveys.com/d1daqu
**2. Anfon drwy'r post at Joanne Watts, Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes Cyfarwyddiaeth Addysg, Llawr 8 Llys Einion, Abertyleri, NP13 1DB**

Diolch am eich amser ac am gyfrannu at yr ymgynghoriad. Dylai yr holl sylwadau ein cyrraedd erbyn 5.00pm dydd Mawrth 6 Mehefin 2023